# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Ionawr 2020

Amser: 4.00 pm

Lleoliad: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), R Jeavons, D Davies, G Giles, D Harvey, D Mayer, M Rahman and R Truman

Yn bresennol: Ms Sheila Davies; Mrs Beverly Owen; Mr Gareth Price; Mr Meirion Rushworth, Mr Keir Duffin.

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr P Cockeram

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Y Cynghorydd Paul Cockeram.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2019 fel cofnod cywir.

4 **Monitro Cyllideb Refeniw**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a ddangosodd ragolwg o'r sefyllfa ar ddiwedd mis Tachwedd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y sefyllfa wedi gwella ers yr adroddiad blaenorol (pan yr adroddwyd bod y Cyngor yn wynebu gorwariant o tua £700 mil); cadarnhaodd yr adroddiad diweddaraf hwn sefyllfa gytbwys.

Mae'r gwelliant oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys cyhoeddi grantiau penodol newydd yn ddiweddar, a fydd yn talu ar rywfaint o'r gorwariant craidd yn ogystal â'r rhewi a dargedwyd ar wariant a gytunwyd o'r blaen gan y Cabinet.

Mae risgiau'n parhau, oherwydd bod y sefyllfa'n cynnwys yr holl gyllideb refeniw wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb gyffredinol; mae gorwariant sylweddol ar wasanaethau yn parhau a gaiff ei liniaru o danwariant heb fod yn y gwasanaeth; mae gorwariant ysgolion yn parhau ar lefel uchel o hyd.

Nid yw patrwm cyffredinol y meysydd gorwariant a thanwariant wedi newid a chadarnhaodd yr adroddiad orwariant mewn nifer fach iawn o weithgareddau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r gorwariant yn sylweddol ac yn cael ei achosi'n bennaf gan alw sy'n tyfu o ran gwasanaethau gofal cymdeithasol, sefyllfa nad yw'n unigryw i Gasnewydd.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgynghori ar ei gyllideb ddrafft 2020/21 sy'n cynnwys cynigion i fuddsoddi'n sylweddol yn y meysydd sy'n parhau i wynebu heriau parhaus o ran galw. Dylai hyn leddfu'r problemau presennol o ran gorwario ond dim ond os bydd galw'n sefydlogi, ac nid oes gwarant o hynny.

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff ar draws y Cyngor am y gwaith a wnaed i reoli cyllidebau o dan amgylchiadau sydd weithiau'n anodd a gofynnodd y gwneir pob ymdrech i barhau i reoli'r cyllid yn gadarn wrth i ddiwedd y flwyddyn ddod yn agosach.

Gofynnwyd i'r Cabinet:

- Nodi'r sefyllfa gyffredinol o ran rhagolygon y gyllideb, gan gynnwys y defnydd o'r holl gyllideb wrth gefn gyffredinol, yn ogystal â'r tanwariant sylweddol mewn cyllidebau di-wasanaeth er mwyn lliniaru, yn rhannol, y gorwariant a ragwelir o fewn gwasanaethau;
- Cytuno bod y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Prif Weithredwr yn parhau i weithio gyda Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn achosi gostyngiadau a dargedir o ran gwariant gwasanaethau. Rhagwelir y bydd y rhain yn dangos cynnydd a monitro'r ddarpariaeth ac y cytunir arnynt gydag Aelodau Cabinet unigol yn eu briffiau rheolaidd;
- Nodi lefel yr arbedion nas cyflenwyd o fewn pob cyfarwyddiaeth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn;
- Nodi'r symudiadau rhagweledig yn y cronfeydd wrth gefn;
- Nodi'r balansau a ragwelir ar gyfer ysgolion unigol dros y flwyddyn nesaf a bod gwaith yn mynd rhagddo o ran lleihau'r gorwariant mewn ysgolion yn y sector uwchradd.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet y dylai'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol barhau i osod ostyngiad targedig o ran gwariant ar draws wasanaethau a pharhau i adolygu a rheoli cyllidebau a risgiau allweddol yn ofalus.

5 **Monitro ac Ychwanegu Rhaglenni Cyfalaf - Rhagfyr 2019**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a ddarparodd yr ychwanegiadau cyfalaf rheolaidd a'r wybodaeth monitro.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys:

- projectau y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ar y rhaglen;
- diweddariad i'r cyfalaf cyfalaf;
- costau cyfalaf yr aethpwyd iddynt hyd yn hyn;
- rhagamcanion o wariant hyd at ddiwedd y flwyddyn, a;
- y sefyllfa bresennol o ran derbyniadau cyfalaf.

Adrodd yr Arweinydd am ychwanegiadau newydd i'r rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys chwe phroject yn costio bron £2 miliwn a ddisgrifir yn yr adroddiad. Cadarnhaodd yr adroddiad bod y projectau hyn yn cael eu hariannu gan grant allanol neu o arbedion cyllideb refeniw yn y gwasanaethau dan sylw a gaiff eu trosglwyddo i ariannu'r costau benthyca cysylltiedig; felly, nid oes unrhyw effaith ar yr arian cyfalaf ychwanegol wrth gefn presennol. Yn benodol, tynnodd yr Arweinydd sylw at y project ailwampio Arcêd y Farchnad y mae swyddogion yn gweithio'n galed iawn i'w symud ymlaen ac roedd yn falch o adrodd y bydd yn gam da arall ymlaen wrth ddatblygu canol y ddinas.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod cynnydd o ran cyflawni'r rhaglen a'r gwariant yn symud ymlaen ar brojectau'r flwyddyn bresennol; fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng y cyllidebau ar gyfer eleni, sef £39 miliwn a'r gwariant presennol, sef £15 miliwn yn sylweddol iawn o hyd. Dywedodd yr Arweinydd, yn hanesyddol mae gwariant uwch yn nau chwarter olaf y flwyddyn ariannol ond wedi adolygu ac ailgyflwyno cyllidebau rhaglen cyfalaf eleni eisoes, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o waith.

Er gwaethaf hyn, roedd yr Arweinydd yn falch o adrodd am gynnydd da yn cael ei wneud ar brojectau gwerthfawr a chyffrous iawn ar gyfer y ddinas, megis:

- Symud ymlaen gwaith cynllunio a dylunio ar gyfer projectau adeiladau ysgol Band B. Mae hyn y cynrychioli dechrau buddsoddiad mawr o £70 miliwn mewn ysgolion dros y pum mlynedd nesaf;
- Hyb cymdogaeth dwyrain Casnewydd sydd erbyn hyn yn gweithredu'n dda iawn;
- Mae project Arcêd y Farchnad yn broject heriol ond mae cynnydd cyson yn cael ei wneud;
- Mae project 123-129 Commercial Street bron wedi'i gwblhau ac mae'n creu effaith weledol gadarnhaol iawn yn rhan honno canol y ddinas; mae'r llety hefyd o safon uchel iawn;
- Mae gwaith cynllunio ar gyfer y Bont Gludo bron wedi'i gwblhau;
- Gwneir cynnydd da ar y cartrefi preswyl newydd i blant a fydd yn gwneud gwelliant cadarnhaol iawn i blant sy'n derbyn gofal y Cyngor.

Cadarnhaodd yr Arweinydd bod y galw am adnoddau cyfalaf yn fwy nag argaeledd cyllid ac mae'n fforddiadwy ar hyn o bryd, ond mae rhaglen tymor canolig sylweddol iawn o hyd sy'n cynrychioli bron £200 miliwn o fuddsoddiadau yn y ddinas dros y pum mlynedd nesaf.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod derbyniadau cyfalaf yn cael eu cynnwys yn y cyflaf ychwanegol wrth gefn.

Roedd y Cyng. Jeavons yn falch o adrodd bod y gwaith a wnaed ym Maes Parcio Park Square ar waith effeithlonrwydd ynni LED wedi arwain at lai o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Canmolodd y Cyng. Giles y gwaith sy'n cael ei wneud ar fenter Band B Ysgolioon y 21in Ganrif.

Canmolodd y Cyng. Harvey swyddogion am y gwaith a wnaed i sicrhau bod Hyb Dwyrain Casnewydd yn dwyn ffrwyth ac felly hefyd y gwaith a wnaed mewn cysylltiad â'r Bont Gludo.

Cymeradwyodd yr Arweinydd a Chyng. Truman y South Wales Argus am eu 'Backing Newport Campaign'. Roedd yr Arweinydd wrth ei bodd bod y South Wales Argus wedi gwneud y penderfyniad i adleoli ei fusnes i Ganol y Ddinas.

Cynigiodd yr adroddiad fod y Cabinet:

- Yn cymeradwyo'r ychwanegiadau i'r Rhaglen Gyfalaf y gofynnir amdanynt yn yr adroddiad (Atodiad A);
- Yn cymeradwyo llithriad o £211 mil;
- Yn nodi'r adnoddau cyfalaf sydd yn weddill ('yn ychwanegol wrth gefn') tan 2022/23;
- Yn nodi'r sefyllfa o ran gwariant cyfalaf a ragwelir ym mis Tachwedd 2019;
- Nodi balans a chymeradwyo dyraniad derbyniadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn.

**Penderfyniad:**

Cabinet:

i) Cymeradwyo'r newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf a nodi'r sefyllfa fonitro fel y nodwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys y defnydd o dderbyniadau cyfalaf;
ii) Cytuno i flaenoriaethu gwariant cyfalaf er mwyn cadw'r gwariant o fewn yr amlen fforddiadwyedd gyfredol.

6 **Dadansoddiad Canol Blwyddyn o Berfformiad 2019/20**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gyda'r diben o roi trosolwg o'r cynnydd ar gyflawni yn erbyn y cynlluniau gwasanaeth a'r mesurau perfformiad ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (2019/20)

Roedd yr adroddiad yn cynnwys adborth ac argymhellion Pwyllgor Craffu ar Bobl a'r Pwyllgor Craffu Lle a Chorfforaethol yn dilyn cyflwyno'r cynlluniau gwasanaeth ym mis Tachwedd 2019.

Cadarnhaodd yr adroddiad:

- Yn 2017, lansiodd Cyngor Casnewydd ei Gynllun Corfforaethol pum mlynedd a nododd ei weledigaeth a'i nodau ar gyfer darparu gwasanaethau' Cyngor a chyflawni ei amcanion Lles ar gyfer dinasyddion Casnewydd.
- Er mwyn sicrhau y cyflawnwyd yr amcanion hyn, datblygodd pob gwasanaeth yn y Cyngor gynlluniau gwasanaeth unigol ategol a gymeradwywyd gan Aelodau'r Cabinet ar gyfer pob gwasanaeth.

Nododd yr adroddiad:

- Y dangosodd chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon fod 97% o'r camau gweithredu mewn cynlluniau gwasanaeth 'ar y gweill' a chafodd 11% o'r camau gweithredu eu cwblhau. (Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion llawn o'r cynnydd):
    - Adroddwyd bod 43 allan o 74 o fesurau perfformiad 'ar darged' o ran cyflawni yn erbyn eu targed blynyddol;
    - Roedd 8 allan o 74 o fesurau perfformiad 'yn brin o'r targed' o ran cyflawni yn erbyn eu targed blynyddol;
    - Roedd 15 o'r 74 o'r mesurau perfformiad yr adroddwyd arnynt 'oddi ar y targed' o ran cyflawni yn erbyn eu targed blynyddol.

  Cafodd y perfformiad ei adolygu'n fanwl gan Bwyllgorau Craffu ac mae uwch reolwyr yn parhau i fonitro canlyniadau'n agos drwy ail ran y flwyddyn.

- Hefyd amlygodd yr adroddiad ddatblygiadau nodedig wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a oedd wedi cynnwys y Cyngor yn gwneud penderfyniadau beiddgar yn erbyn cefndir pwysau ariannol parhaus. Er bod manylion llawn am y datblygiadau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, amlygodd yr Arweinydd rywfaint o'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn:

    - Mae'r Cyngor wedi cael llwyddiant o ran cyflawni Rose Cottage ac anogaeth yn natblygiad plant yn y lleoliad ar ôl iddynt ddod yn ôl i'r Ddinas; mae'r plant yn ffynnu yn y lleoliad hwn. Bellach mae'r Cyngor yn y broses o brynu ail eiddo a fydd yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ddod â lleoliadau y tu allan i'r sir yn ôl i mewn i'r Ddinas;
    - Mae cydweithredu rhwng Casnewydd, Caerffili a Sir Fynwy wrth ddarparu'r gwasanaeth Teleofal yn gwbl weithredol erbyn hyn;

- Bu Gorfodaeth Parcio Sifil yn llwyddiant er ei gweithredu'r haf diwethaf sydd wedi trawsnewid amgylchedd y ddinas a gwelwyd gostyngiad o ran parcio anghyfreithlon ledled y ddinas;
- Mae llwyddiant Strategaeth Wastraff newydd y cyngor a gweithredu biniau olwynion llai wedi gweld cynnydd yng nghyfradd ailgylchu'r Cyngor a chefnogi targed Llywodraeth Cymru sef lleihau gwastraff yr eir ag ef i safleoedd tirlenwi;
- Bu datblygiadau sylweddol o ran adfywio Canol y Ddinas gydag ailddatblygu Tŵr y Siartwyr, Arcêd y Farchnad a'r Bont Gludo;
- Mae lansiad Hyb Ringland a'r model Hyb newydd ledled y ddinas yn dod â gwasanaethau'r Cyngor ynghyd gan alluogi preswylwyr i gael mynediad at y gwasanaeth y mae eu hangen arnynt yn haws;
- Hefyd dechreuodd y Cyngor dderbyn hyfforddeion graddedig am y tro cyntaf ym mis Medi 2019 ac mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cyfleoedd prentisiaeth, hyfforddiant a datblygu staff newydd a phresennol.

Parthed Mesurau Perfformiad Cenedlaethol, adroddwyd:

- Ar y pwynt canol blwyddyn ar gyfer 2019/20, adroddwyd bod 16 allan o 27 (63.5%) o'r mesurau perfformiad cenedlaethol 'ar darged'.

- Adroddwyd bod 4 allan o 27 o fesurau cenedlaethol yn ambr 'yn brin o'r targed' gyda 7 o fesurau a ddangoswyd eu bod yn goch - 'oddi ar y targed'.

Dogfennodd yr adroddiad Adborth ac Argymhellion y Pwyllgor Craffu sef:

- Cyflwynwyd diweddariadau perfformiad canol blwyddyn i Bwyllgor Craffu Lle a Chorfforaethol y Cyngor ac i Bwyllgor Craffu Pobl y Cyngor ym mis Tachwedd 2019. Mae crynodeb o'r argymhellion a godwyd i'r Cabinet i'w hystyried wedi'u cynnwys yn yr adroddiad;
- Fel Arweinydd y Cabinet hwn rydym yn derbyn yr adborth a dderbyniwyd gan ein cydweithwyr yn y ddau Bwyllgor Craffu ac yn annog Aelodau Cabinet, Uwch Swyddogion a swyddogion ledled y Cyngor ystyried y rhan wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth gyflwyno adroddiadau yn y dyfodol.

Crynhodd yr Arweinydd yr adroddiad drwy gadarnhau:

- Bod Aelodau'r Cabinet i gyd yn gyfrifol am oruchwylio a chyflawni'r cynlluniau gwasanaeth a lle y gwneir cynnydd da y rhoddir cydnabyddiaeth i'r gwaith a wneir gan y gwasanaethau a'u staff;
- Yn yr un modd, mae Aelodau'r Cabinet yn cymryd cyfrifoldeb ac yn sicrhau, lle yr adroddir ar danberfformiad, y cymerir y cam(au) angenrheidiol gan y gwasanaethau i wella perfformiad a darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar etholwyr y Cyngor wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Gofynnodd y Cyng. Jeavons am roi ar y cofnod ei ddiolchiadau i holl breswylwyr Casnewydd am gofleidio'r newid mawr i'r biniau olwynion llai ac felly lleihau targedau ailgylchu.

Cadarnhaodd yr Arweinydd, er bod llawer o waith i'w wneud o hyd mae'r Weinyddiaeth wedi'u hymrwymo'n llwyr i bobl Casnewydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Corfforaethol.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried y cynigion canlynol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Derbyn diweddariad arall ar y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn pan fydd y data ar gael;
3. Cymryd camau gweithredu brys ar y cyd â'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth i fynd i'r afael â meysydd perfformiad gwael.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y cynigion

7 **Gorsaf Wybodaeth**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a chadarnhaodd od y broject yn cynnwys tair elfen allweddol:

1. Adleoli'r Orsaf Wybodaeth i'r adeilad y Llyfrgell a'r Amgueddfa;
2. Is-brydlesu'r Orsaf Wybodaeth gyfredol i Ddarparwr Hyb Technoleg er mwyn cyflawni dyhead corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd i fod yn Ddinas Ddigidol;
3. Darparu a defnyddio adeiladau o eiddo'r Cyngor yn well gan ailwampio'r Amgueddfa a'r Llyfrgell i gynnwys gwasanaethau wedi'u gwella a'u cydleoli.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod y project yn denu arianwyr allanol fel Llywodraeth Cymru a'r sector preifat gyda chyfanswm pecyn ariannu o £1.75 miliwn. Bydd y project hefyd yn darparu arbedion MTRP i'r Cyngor.

Hefyd bydd y project yn creu cam pellach at ddarparu canol dinas bywiog ac yn helpu i ddarparu "Rhodfa Ddigidol Casnewydd".

Y cynigion a roddwyd gerbron y Cabinet oedd:

- Mynd ati i chwilio am gyfleoedd i fasnacheiddio adeilad yr Orsaf Wybodaeth;
- Awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen gyda phrosesau perthnasol i chwilio am feddianwyr newydd ar gyfer yr Orsaf Wybodaeth a chyllid allanol dydd ei angen i gyflawni'r project;
- Yn amodol ar lwyddo i dderbyn cyllid TRI allanol, rhent masnachol boddhaol yn unol â'r arfarniad ariannol sylfaenol ar gyfer y project hwn, adleoli staff presennol a gwasanaethau o'r Orsaf Wybodaeth i'r Amgueddfa/Llyfrgell Ganolog a sicrhau meddianwyr newydd ar gyfer yr Orsaf Wybodaeth;
- Cytuno ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn Buddsoddi i Arbed er mwyn cefnogi'r project hwn yn amodol ar gyflawni cyfnod ad-dalu gofynnol;
- Cymeradwyo'r £350 mil o gyllid cost cyfalaf y Cyngor sydd ei angen yn y rhaglen gyfalaf.

Cytunodd y Cabinet fod yr Amgueddfa/Llyfrgell Ganolog lawer mwy addas ar gyfer cyfleuster siop un stop gyda'i chysylltiadau agosach a'r orsaf fysus. Bydd y lleoliad newydd yn helpu i ddenu rhagor o ymwelwyr i ganol y ddinas.

**Penderfyniad:**

Bod y Cabinet yn cytuno:-

i) bwrw y ymlaen gyda chyfleoedd i fasnacheiddio adeilad yr Orsaf Wybodaeth, ar y sail y gall swyddogion sicrhau meddianwyr newydd a chyllid allanol sydd ei angen i gyflawni'r project;
ii) adleoli'r staff presennol o'r Orsaf Wybodaeth i'r Amgueddfa a'r Llyfrgell Ganolog

8 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - Crynodeb**

Roedd y rhestr hon at ddibenion gwybodaeth yn unig.  Cadarnhaodd yr Arweinydd ei bod yn falch o gael ei hethol fel Cadeirydd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Un Casnewydd.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr ar gyfarfod y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar lle roedd partneriaid yn ganmoliaethus am arddull cynnal y cyfarfod oherwydd ymagwedd y Cadeirydd newydd.

9 **Rhaglen Waith**

Cyflwynodd yr Arweinydd Raglen Waith y Cabinet.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet i'r rhaglen wedi'i diweddaru.

10 **Rhan 2 Eitemau Cyfrinachol neu Eithriad**

Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd yn ystod ystyried yr eitem ganlynol ar y sail bod ei hystyried yn cynnwys datgelu tebygol gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'r esemptiad yn gorbwyso budd y cyhoedd mewn datgelu.

11 **Cyflwyniad Adfywio Canol y Ddinas**

Rhoddodd y Swyddogion y Cabinet gyflwyniad a archwiliodd gyfle adfywio posibl yng nghanol y ddinas sy'n canolbwyntio ar Ganolfan y Cambrian, Cam 2.

Cadarnhaodd y Swyddogion y canlynol:

- 2013 - rhoddwyd prydles 250 mlynedd i Scarborough Development Group (SDG) gan Gyngor Dinas Casnewydd;
- 2014 - cwblhaodd SDG Canolfan y Cambrian Cam 1: Admiral House - yr unig swyddfa Gradd A yng Nghanol y Ddinas;
- 2016 - Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer Canolfan y Cambrian Cam 2;
- 2018 - Nodwyd y safle fel project allweddol yn Uwchgynllun Canol y Ddinas;

Cynigiwyd y byddai'r Cyngor yn dod i gytundeb gydag SDG i gymryd prydles 25 mlynedd am dâl rhent a gwasanaeth y cytunwyd arno er mwyn hwyluso datblygu swyddfeydd Gradd A ar y safle hwn, yn unol â'r caniatâd cynllunio manwl ar gyfer Cam 2 ailddatblygu Canolfan y Cambrian.  Byddai gwerth cyfalafu cyfamod rhentu'r Cyngor yn darparu cyllid llenwi bwlch er mwyn galluogi SDG i ymgymryd â'r gwaith datblygu.  Wedyn byddai'r Cyngor yn gyfrifol am isosod yr adeilad cyflawn er mwyn adennill y costau rhent.

Derbyniodd y Cabinet gyngor ariannol, cyfreithiol a phrisio manwl parthed y risgiau a'r rhwymedigaethau dan sylw, y galw am ofod swyddfa Gradd A yng Nghasnewydd a ffigurau rhent cymaradwy.

Ceisiwyd cytundeb gan y Cabinet i:

i) Gymeradwyo caffael buddiant prydles 25 mlynedd yng Nghanolfan y Cambrian Cam 2:
ii) Cymeradwyo elw'r Datblygwr o 17.5%:
iii) Cymeradwyo lefel y rhent y bydd y Cyngor yn ei dalu;
iv) Bydd y cytundeb yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol;
v) Awdurdodi swyddogion i negodi Penawdau Telerau manwl a chwblhau Cytundeb Prydlesu.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet i fwrw ymlaen â'r cynigion fel y'u nodir uchod.

12 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Mercher 12 Chwefror 2020, am 4.00 pm yn Ystafell Bwyllgor 1, yn y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd.